



**mudiad  
meithrin**

arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

**Cefnogi Gwaith Mudiad Meithrin 2019**

**[www.meithrin.cymru](http://www.meithrin.cymru)**

# Cyflwyniad

Mae Mudiad Meithrin yn un o'r elusennau pwysicaf yng Nghymru sy'n sicrhau parhad a datblygiad yr iaith Gymraeg ymysg ein plant ifainc. Gyda bron i 19,000 o blant bach yn mynychu ein darpariaethau yn flynyddol ac yn mwynhau dysgu trwy chwarae yn Gymraeg, mae gwir obaith y bydd Cymru yn datblygu'n wlad ddwyieithog yn y dyfodol. Yn wir pan sefydlwyd y Mudiad yn 1971 roedd ffigurau'r Cyfrifiad y flwyddyn honno yn nodi mai 11.3% o blant 3-4 oed yng Nghymru oedd yn gallu siarad Cymraeg, ond braf yw nodi yng Nghyfrifiad 2011 fod y ffigur wedi dyblu i 23.3% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg.

**Pwy yw Dewin a Doti?**  
Cymeriadau unigryw'r Mudiad sy'n ffrindiau i holl blant y cylchoedd meithrin ac sy'n eu helpu a'u hybu i siarad Cymraeg.



Heb os, mae'r gwaith caled a wnaed yn y Cylchoedd Meithrin a'r Cylchoedd Ti a Fi dros y blynyddoedd wedi cyfrannu'n helaeth at sicrhau'r cynnydd yma o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae gwaith Mudiad Meithrin bellach yn cael ei weld ym mhob cwr o Gymru ac mae'r galw am ein gwasanaethau yn cynyddu yn flynyddol.

Trwy gefnogi Mudiad Meithrin byddwch yn gwneud gwahaniaeth i ddyfodol yr iaith Gymraeg yng Nghymru a thrwy gefnogi ein gwaith fe gewch gyfle unigryw i fod yn rhan o gymuned Mudiad Meithrin a chyfle i hybu eich brand a chefnogaeth eich cwmni i achos teilwng iawn.

Helpwch ni i gyfrannu at greu miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 #MeithrinMiliwn.



**74,824**

o ymwelwyr i'r  
wefan

dros  
**16,000**

o ddilynwyr  
ar wefannau cymdeithasol

**66%**

o'r cylchoedd meithrin  
yn darparu'r Cyfnod  
Sylfaen

2,000 o staff yn  
y cylchoedd  
meithrin/Ti a Fi

**Doti**



@MudiadMeithrin



/MudiadMeithrin

Dros **220** o  
staff yn cael eu  
cyflogi gan y  
Mudiad yn  
uniongyrchol

Dros **1,500** o  
wirfoddolwyr yn  
genedlaethol



**18,547** o blant yn  
mynychu  
darpariaethau  
Mudiad Meithrin yn  
rheolaidd

**433 Cylch  
Meithrin** ar hyd  
a lled Cymru

**Dros 145** o grwpiau  
Cymraeg i Blant  
(grwpiau i rieni a  
babis ifanc)

Data Cyfrifiad 2011 yn  
dangos 23.3% o blant  
3-4 oed yn siarad  
Cymraeg, 11.3% oedd  
canran cyfatebol 1971  
pan sefydlwyd y Mudiad

**Dros 300**  
o Gylchoedd  
Ti a Fi ar hyd a  
lled Cymru

# Cynnwys



- 05 **Gwyliau Cenedlaethol**
- 08 **Digwyddiadau Arbennig**
- 11 **Buddion i'r Noddwr**
- 12 **Adnoddau Mudiad Meithrin**
- 13 **Manylion Cyswllt**





# 1. Gwyliau Cenedlaethol

## a) Noddi stondin a phresenoldeb Mudiad Meithrin yn y gwyliau cenedlaethol yng Nghymru

Bob blwyddyn mae Mudiad Meithrin yn mynychu'r gwyliau isod ac yn codi uned ddeniadol sy'n cynnwys gweithgareddau crefft, ardaloedd chwarae rôl, sesiynau canu a pharc chwarae er mwyn difyrru'r plant bach.

## Standin y Mudiad yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd (27 Mai - 1 Mehefin 2019)



Eisteddfod yr Urdd yw un o wyliau ieuenticid mwyaf Ewrop. Mae'n denu dros 100,000 o ymwelwyr ac mae ganddi gynulleidfa eang ar deledu a radio. Mae dros 15,000 o blant yn cystadlu yn flynyddol ac mae'n ddathliad o Gymreictod a thraddodiad.

Mae gan y Mudiad bresenoldeb yno bob blwyddyn gydag uned liwgar (12m x 10m) ar gyfer addysgu ymwelwyr ynghylch ein gwaith a'n darpariaethau gan gynnal nifer o weithgareddau ar gyfer plant a'u teuluoedd.

Mae'r uned yn cynnig cyfle delfrydol i lansio cynlluniau newydd hefyd gan ddenu sylw'r wasg a fydd ar y maes yn ystod yr wythnos. Bydd hwn yn gyfle gwych i roi sylw i noddwr newydd!



## Pasiant Meithrin yn Eisteddfod yr Urdd

Dyma uchafbwynt y flwyddyn i gannoedd o blant bach sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin yn yr ardal ble cynhelir Eisteddfod yr Urdd. Mae'n gyfle unigryw i blant y Mudiad berfformio sioe gerddorol fer (tua 20 munud o hyd) ar brif llwyfan Eisteddfod yr Urdd fydd yng Nghanolfan y Mileniwm eleni. Yn ystod y Pasiant Meithrin bydd y Pafiliwn dan ei sang o rieni a theuluoedd sydd wedi dod i weld eu plant yn serennu ar y llwyfan.

Bydd y Pasiant Meithrin yn cael ei berfformio ar fore Sadwrn 1 Mehefin 2019 yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd. Dyma gyfle arbennig i noddw'r Pasiant sy'n cael ei ddarlledu'n fyw ar S4C.



## Stondin y Mudiad yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd (22-25 Gorffennaf, 2019)

Sioe Frenhinol Cymru yw prif ddigwyddiad Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru a gynhelir am 4 diwrnod ym mis Gorffennaf. Mae'n denu dros 240,000 o ymwelwyr yn flynyddol. Gellir dadlau mai dyma'r digwyddiad gorau o'i fath yn Ewrop, ac mae'n cynnig posibiliadau a chyfleoedd diddiwedd i noddwyr.

Mae'r Mudiad yn ffodus iawn o gael safle gwych ar gyfer diddanu plant a'u teuluoedd yn yr adran goedwigaeth gan osod parc chwarae ynghlwm â'r uned. Mae'r lleoliad hefyd yn golygu fod nifer o ymwelwyr y sioe yn galw heibio bob munud felly byddai brand a logos noddwyr yn weledol iddynt oll.



## Stondin y Mudiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanrwst (2 – 10 Awst, 2019)

Yr Eisteddfod Genedlaethol yw un o uchafbwyntiau'r calendr diwylliannol yng Nghymru, ac mae'i hapêl a'i chyrrhaeddiad yn unigryw. O ran y cyfryngau, dyma ddarllediad allanol mwyaf y BBC ar wahân i gystadleuaeth tennis Wimbledon, ac fe'i darlledir ar deledu, radio ac ar-lein yn y ddwy iaith am 150 awr yn ystod yr wythnos. Ceir llawer o sylw yn y wasg yn ogystal, ac mae nifer fawr yn elwa o'r sylw hwn, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae gennym barc chwarae caeddig sy'n cynnwys cegin fwd y tu allan i'r uned hefyd, lle bydd cyfle i rieni ymlacio a chyd-chwarae gyda'u plant mewn awyrgylch deniadol a diogel.

Mae gan y Mudiad bresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn gyda'r un uned liwgar ag a geir yn Eisteddfod yr Urdd. Mae'r uned yn cynnig cyfle delfrydol i lansio cynlluniau newydd hefyd gan ddenu sylw'r wasg yn ystod yr wythnos.

## Pasiant Meithrin

Bydd y Pasiant Meithrin yn cael ei gynnal yn yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn 10fed o Awst. Dyma gyfle arbennig i noddwyr Pasiant a fydd yn cael ei berfformio ar brif lwyfan Pafiliwn yr Eisteddfod gyda dros 200 o blant yn cymryd rhan. Yn ystod y Pasiant Meithrin bydd y Pafiliwn dan ei sang o rieni a theuluoedd sydd wedi dod i weld eu plant yn serennu ar y llwyfan.

PECYNNAU NAWDD Y GWYLIU CENEDLAETHOL					
	Nifer sy'n mynychu'r digwyddiad	Pasiant Meithrin	Parc Chwarae	Noddi stondin am 1 Diwrnod	Noddi stondin am gyfnod yr ŵyl am bris gostyngol
Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd (6 diwrnod)	100,000	£1,500	£1,500	£800	£4,000
Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Llanelwedd (4 diwrnod)	240,000	x	£1,000	£800	£2,500
Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst (8 diwrnod)	150,000	x	£1,500	£800	£5,500

# b) Gŵyl Dewin a Doti (10 - 29 Mehefin 2019)

## Dathlu Pen-blwydd Dewin a Doti yn 10 oed

Gŵyl flynyddol a gynhelir gan Mudiad Meithrin yw Gŵyl Dewin a Doti. Mae'r daith genedlaethol, a gynhelir am 3 wythnos ym mis Mehefin, yn cynnwys sioe gerddorol llawn hwyl yng nghwmni diddanwr proffesiynol a fydd yn diddanu plant o 0-4 oed, rhieni, teuluoedd a staff y cylchoedd. Mae'r Daith yn ymweld â phob sir yng Nghymru a chynelir o gwmpas 38 sioe dros gyfnod o dair wythnos.

Rydym yn cynhyrchu pecyn adnoddau ar thema'r ŵyl sy'n cynnwys cyfleon i hysbysebu (gweler y manylion ar dudalen 11). Mudiad Meithrin yw'r unig fudiad gwirfoddol trwy Gymru sy'n cynnal taith Genedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel hyn. Cyfle gwych i noddwyr ddangos eu cefnogaeth i'r Gymraeg!

Heini, y diddanwr plant ar S4C, fydd yn cynnal y daith eleni, a'r thema fydd 'Dathlu' gan fod Dewin a Doti yn 10 oed eleni.

Niferoedd: 7,000+  
Noddi diwrnod £500  
Noddi wythnos £2,000  
Noddi'r ŵyl gyfan £5,000



# 2. Digwyddiadau Arbennig

## a) Parti Piws Dewin a Doti - Ebrill 10, 2019

Ar y 10fed o Ebrill bydd Dewin a Doti yn cynnal Partion Piws ar hyd a lled y wlad er mwyn dathlu eu pen-blwydd yn 10 oed. Cymeriadau hoffus y Mudiad i blant bach Cymru yw Dewin a Doti a maent yn helpu plant ein Cylchoedd Meithrin i gael hwyl trwy'r Gymraeg. Bwriad y Parti Piws yw annog ein Cylchoedd Meithrin, Ti a Fi a meithrinfeydd dydd i wisgo piws ar y diwrnod gan gyfrannu £1 yr un fel modd o godi arian i'r cylchoedd. Anelwn at gael 10,000 yn cymryd rhan gan greu'r Parti Piws Mwyaf y Byd!

Noddi'r pecyn gweithgareddau	£500
Noddi'r digwyddiad	£1,000
Prif noddwr	£5,000



## b) Seremoni Wobrwyo Cynllun Ysgolion 'Cam wrth Gam' - Mehefin 2019

Cynllun Ysgolion  
Cam wrth Gam

 **mudiad  
meithrin**

Mae hon yn seremoni urddasol sy'n gwobrwyo dros 100 o fyfyrwyr sydd wedi cymhwysu ar gyrsiau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar trwy'r 'Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam' a reolir gan ein adran Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol

Niferoedd: 200+

Noddi'r digwyddiad	£1,000
Noddi'r rhaglen	£500



## c) Cynhadledd Staff Mudiad Meithrin - Ebrill 5, 2019 (Gregynog)

Digwyddiad cenedlaethol i holl staff Mudiad Meithrin gyda nifer o siaradwyr gwadd amlwg.

Niferoedd: 100+

Noddi Cynhadledd Staff Mudiad Meithrin	£500
Noddi pecyn i fynychwyr	£500





## ch) Seremoni Wobrwyo Mudiad Meithrin – Hydref 19, 2019

Seremoni flynyddol arbennig yw hon a gynhelir i wobrwyo a chlodfori'r holl waith da mae ein staff a gwirfoddolwyr yn ei gyflawni ar lawr gwlad yn ein cylchoedd a meithrinfeydd dydd. Yn ystod y seremoni byddwn yn cynhyrchu ffilm fer o bob enillydd ac wrth noddi categori bydd eich logo yn ymddangos ar ddechrau'r ffilm ac ar bob deunydd hyrwyddo'r categori honno. Mae pob enillydd yn derbyn gwobr ar ffurf delwedd o Dewin. Mae 11 categori gwobr i gylchoedd gael eu henwebu ar eu cyfer sef:

1. Ardal Tu Allan	7. Cynhwysiant
2. Arweinydd	8. Dewin a Doti
3. Pecyn Croeso	9. Gwirfoddolwr
4. Cynorthwy-ydd	10. Meithrinfa Ddydd
5. Cylch Meithrin	11. Pwyllgor
6. Cylch Ti a Fi	

Niferoedd: 250+

<b>Noddi Categori Gwobr</b>	<b>£200</b>
<b>Noddi'r Rhaglen</b>	<b>£350</b>
<b>Noddi Delwedd o Dewin</b>	<b>£500</b>
<b>Noddi'r Derbyniad Gwin</b>	<b>£750</b>
<b>Noddi'r Lluiaeth</b>	<b>£1,000</b>
<b>Noddi'r Holl Ffilmiau</b>	<b>£1,000</b>
<b>Prif Noddwr y Seremoni</b>	<b>£2,000</b>



## d) Cyfarfod Blynyddol – Hydref 19 2019

Mae Cyfarfod Blynyddol y Mudiad yn fodd o ddathlu a chlodfori'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyd y flwyddyn. Gwahoddir holl staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r cyhoedd i fynychu'r cyfarfod a dysgu mwy am waith y Mudiad.

Niferoedd: 100+

**Noddi'r Cyfarfod Blynyddol**

**£1,000**



## dd) Seremoni Wobrwyo Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol - Hydref 19 2019

Cynllun  
Hyfforddi  
Cenedlaethol

mudiad  
meithrin

Mae hon yn seremoni urddasol sy'n gwobrwyo dros 100 o fyfyrwyr sydd wedi cymhwyso ar gwrs Gofal Dysgu a Dablygiad Plant trwy'r Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol sy'n un o adrannau Mudiad Meithrin.

Niferoedd: 200+

**Noddi'r digwyddiad** £1,500

**Noddi'r lluniaeth** £1,000

**Noddi'r rhaglen** £500



## Buddion i'r Noddwr yn seiliedig ar swm y Nawdd – Gwyliau Cenedlaethol a Digwyddiadau Arbennig

	£400	£500 - £1,000	£1,000 – £1,999	£2,000+
Diolch cyhoeddus ar Twitter a Facebook	X	x	x	x
<b>Linc i'ch gwefan o wefan y</b> Mudiad am gyfnod o fis dros gyfnod y digwyddiad	x	x	x	x
Logo eich sefydliad ar ddeunyddiau hyrwyddo perthnasol		x	x	x
Cyfle i arddangos un panel <b>'Pull-up' yn y digwyddiad</b>			x	x
Cyfle i ddsbarthu nwyddau yn y digwyddiadau			x	x
Eich enwi mewn datganiad <b>i'r wasg</b>			x	x
Cyfle i annerch yn y digwyddiad a noddir				x
<b>2 docyn i'r digwyddiad</b>				x

# 3. Adnoddau Mudiad Meithrin

## a) Noddi cylchlythyr tymhorol Mudiad Meithrin (3 gwaith y flwyddyn)

Rydym yn cyhoeddi cylchlythyr tymhorol i dros 1,000 o'n darpariaethau a phartneriaid, ac fe'i gyrrir yn ddigidol i'n cyfeillion a'n staff yn ogystal.

Mae hefyd i'w weld ar ein gwefan.

Niferoedd: 1,500 o gyfeiriadau post/e-bost

**Noddi un rhifyn**

**£500**

**Noddi'r cylchlythyr am flwyddyn (3 rhifyn)**

**£1,000**



## b) Llyfryn Gweithgareddau 'Dathlu' Gŵyl Dewin a Doti

Rydym yn cynhyrchu llyfryn gweithgareddau lliwgar ar gyfer Gŵyl Dewin a Doti fydd yn cael eu hanfon at harweinyddion a staff ein Cylchoedd Meithrin ar y thema 'dathlu'.

Niferoedd: 1,000

**Hysbyseb 1/4 tudalen**

**£200**

**Hysbyseb 1/2 tudalen**

**£375**

**Hysbyseb tudalen llawn**

**£650**



## Buddion i'r Noddwr - Adnoddau

Rydym yn hapus i drafod eich anghenion a gall eich buddion gynnwys y canlynol yn ddibynnol ar swm y nawdd:

- Diolch cyhoeddus ar 'Twitter' a 'Facebook'
- Logo'r noddwr ar yr adnodd
- Linc i'ch gwefan o wefan Mudiad Meithrin am gyfnod penodol
- Cydnabyddiaeth mewn datganiad i'r wasg



## Cefnogi gwaith Mudiad Meithrin

Os oes gennych ddiddordeb yn un o'r cyfleoedd sy'n cael ei nodi yn y daflen hon neu os hoffech i ni greu pecyn nawdd unigryw i'ch cwmni chi yna cysylltwch gyda Nerys Fychan, Dirprwy Reolwr Cyfathrebu a Phartneriaethau

nerys.fychan@meithrin.cymru

neu

01970 639639

Mae sawl ffordd y gallwch chi gefnogi ein gwaith. Mae'r pecyn nawdd yma yn amlinellu y prif ffyrdd o wneud hynny yn gyhoeddus. Serch hynny, os hoffech gefnogi agweddau eraill o'n gwaith neu os hoffech gyfrannu arian tuag at brosiectau gwahanol i'r rhai a amlinellir yn y pecyn hwn cysylltwch â Nerys Fychan.

Mae gan Mudiad Meithrin bolisi moesol ac felly bydd yn cadw'r hawl i wrthod derbyn nawdd gan sefydiadau sydd, yn ei dyb, yn anghymarus i waith, egwyddorion ac amcanion y Mudiad.

CYMRAG

#MeithrinMiliwn



 **mudiad  
meithrin**  
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar